Amcanion: Disgrifiad o'r broses o ddelio gyda ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth cymdeithasau, mudiadau, ayyb.

Cyfrifoldeb:

Clerc y Dref: Cyfrifol am yr holl broses ac i gadw cofnod o'r cais drwy'r holl broses.

Ysgrifenyddes: Cyfrifol am gynorthwyo lle nodir

Dogfennau perthnasol:

Canllawiau ar gyfer ymgeiswyr
Ffurflen gais
Cofnod

Proses:

1. Y Clerc i sefydlu cofrestr i gofnodi derbyn a delio gyda cheisiadau.
2. Y Clerc i sicrhau fod fersiwn diweddaraf o'r Canllawiau a'r Ffurflen Gais ar gael ar wefan y Cyngor.
3. Y Clerc/Ysgrifenyddes i dderbyn ymholiadau, roddi cyngor ac i anfon y Canllawiau a'r Ffurflen Gais i ymholwyr ac i gadw cofnod.
4. Y Clerc/Ysgrifenyddes i nodi derbyn pob Cais.
5. Y Clerc i archwyio'r cais a'r wybodaeth ychwanegol a dderbynwyd:
   - os yw'r ymgeisydd wedi anfon yr holl wybodaeth angnrheidiol, y Clerc i roddi'r gais ar agenda'r Panel Cyllid nesaf;
   - os nad yw'r Ffurflen Gais wedi ei chwblhau yn gyflawn neu os nad yw'r holl wybodaeth a ofynir amdano wedi ei dderbyn, y Clerc i gysylltu gyda'r ymgeisydd i egluro na fydd yn bosibl ystyried y cais os na fyddent yn cwblhau'r Ffurflen yn llawn ac anfon yr holl wybodaeth angenrheidiol.
6. Os nad oedd y Cais gwreiddiol yn gyflawn, y Clerc i archwyio'r Cais newydd a'r wybodaeth newydd a anfonwyd ac, os yn gyflawn, ei roddi ar agenda'r Panel Cyllid nesaf. Os yw'r cais neu wybodaeth yn parhau yn ddiffygiol, y Clerc i gysylltu a'r ymgeisydd eto.
7. Y Panel Cyllid i ystyried y ceisiadau ac i benderfynu:
   - derbyn y cais a chytuno ar swm o gymorth neu;
   - derbyn y cais a chytuno ar swm o gymorth a gosod amodau ychwanegol neu
   - gwrthod y cais.
8. Cofnodion y Panel Cyllid yn dod gerbron y cyfarfod nesaf o'r Cyngor. Y Cyngor i benderfynu:
   - derbyn penderfyniadau'r Panel Cyllid neu;
   - addasu'r swm a gynnigwyd i rhai ymgeiswyr neu;
   - cynnig swm o gymorth i rhai ymgeiswyr a wrthodwyd neu;
   - gosod amodau ychwanegol ar rhai ymgeiswyr llwyddiannus neu;
   - gwrthod rhai ceisiadau a gytunwyd gan y Panel Cyllid.
9. Yn dilyn cyfarfod y Cyngor, y Clerc i gysylltu gyda phob ymgeisydd drwy lythyr neu ebost i'w hysbysu o benderfyniad y Cyngor ac, lle bu'r cais yn llwyddiannus, amgau siec priodol.
10. Lle bu cais ar gyfer digwyddiad arbennig, y Clerc i gysylltu gyda'r ymgeiswyr os nad ydynt wedi anfon adroddiad ac adroddiad ariannol 3 mis ar ôl cwblhau'r digwyddiad.